

## Agenda – Y Cyfarfod Llawn

---

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

### 176(v4)

---

#### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

#### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

#### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

##### Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** O ystyried bod adroddiad diweddar Estyn yn datgan y gallai ysgolion uwchradd yng Nghymru wneud yn well, gyda dim ond hanner wedi'u barnu i fod yn dda neu'n ardderchog ar hyn o bryd, pa waith y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau y codir safonau ar draws holl ysgolion uwchradd Cymru?



#### **4 Datganiadau 90 Eiliad**

(5 munud)

#### **5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad 03–18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9**

(15 munud)

**NDM6890 [Jayne Bryant \(Gorllewin Casnewydd\)](#)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Adroddiad 03–18 a [osodwyd](#) gerbron y Cynulliad ar 23 Tachwedd 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9
2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

#### **6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Perfformiad Llwyodraeth Cymru**

(60 munud)

**NDM6892 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu ers mis Rhagfyr 2009:
  - a) fod amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn y GIG yng Nghymru wedi cynyddu;
  - b) fod perfformiad yn erbyn y targedau 4 a 12 awr yn adrannau brys Cymru wedi dirywio;
  - c) nad yw'r targedau trin canser yng Nghymru erioed wedi cael eu cyrraedd;
  - d) fod nifer y gwelyau mewn ysbytai yng Nghymru wedi gostwng;
  - e) fod perfformiad TGAU wedi dirywio yng Nghymru gyda chyrhaeddiad graddau A\* – C ar gyfer haf 2018 ar y lefel waethaf ers 2005;
  - f) fod sgoriau OECD PISA Cymru yn waeth mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth a bod y canlyniadau diweddaraf yn waeth nag yn 2009, gan roi sgoriau Cymru yn hanner gwaelod sgoriau byd-eang yr OECD ac ar waelod sgoriau'r DU;
  - g) fod nifer fawr o ysgolion yng Nghymru wedi'u cau'n barhaol;
  - h) fod incwm gwario gros aelwydydd fel canran o gyfartaledd y DU wedi gostwng;

- i) fod gan Gymru gyfradd twf cyflog gyfartalog gwaethaf gwledydd y DU;
- j) fod ardrethi busnes yng Nghymru wedi dod yn llai cystadleuol na rhannau eraill o'r DU; a
- k) fod nifer y cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu yn flynyddol yng Nghymru wedi gostwng.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod ei methiannau, gan roi'r gorau i'w pholisïau sy'n methu, a chyflawni'r newid cadarnhaol sydd ei angen ar Gymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – [Julie James \(Gorllewin Abertawe\)](#)**

Dileu popeth ar ôl Cymru a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod:

- a) Bod bron i naw o bob 10 o bobl yn cael eu trin o fewn yr amser targed o 26 wythnos
- b) Bod y buddsoddiad yn GIG Cymru ar lefel na welwyd o'r blaen
- c) Bod mwy o bobl nag erioed yn goroesi canser yng Nghymru ac yn cael eu trin o fewn yr amser targed
- d) Bod cyfran y disgyblion a gafodd y graddau TGAU uchaf, A\* i A, wedi cynyddu i 18.5% yn 2018
- e) Bod 8.7% o ddisgyblion wedi cael A\* yn eu harholiadau Safon Uwch yn 2018 – y canlyniadau gorau yng Nghymru ers cyflwyno'r radd yn 2010
- f) Bod incwm gwario gros aelwydydd (GDHI) yn 2016 yn £15,835 i bob person, sy'n cyfateb i 81.5% o GDHI y DU, cynnydd ers 2015
- g) Bod enillion wythnosol gros cyflogeion sy'n gweithio'n amser llawn yng Nghymru yn 2018 wedi cynyddu 2.1% ers 2017
- h) Bod 1.5m o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru yn ystod y tri mis hyd at fis Medi 2018, cynnydd o 4.2% o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt – y cynnydd mwyaf yn unrhyw un o wledydd neu ranbarthau'r DU
- i) Bod tri chwarter busnesau bach Cymru yn cael cymorth â'u biliau ardrethi ac nad yw eu hanner yn talu unrhyw ardrethi annomestig o gwbl

j) Y bydd 20,000 o dai fforddiadwy newydd yn cael eu hadeiladu drwy gyllid Llywodraeth Cymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Yn diolch i'r Prif Weinidog am ei arweiniad a'i waith yn ystod ei naw mlynedd yn y swydd.

## **7 Dadl Fer**

(30 munud)

### **NDM6891 [David Melding \(Canol De Cymru\)](#)**

Yr oes Neolithig yn stori Cymru: gwerthfawrogi yr hyn a gyflawnwyd cyn hanes.

Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynhanes ym mywyd diwylliannol Cymru.

## **8 Cyfnod pleidleisio**

## **9 Dadl ar Gyfnod 3 y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

(120 munud)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

### **1. Dyletswydd i ddarparu gofal plant a gyllidir**

4\*, 4A\*, 4B\*, 20

### **2. Cymhwysra rhieni**

6, 11, 8, 9, 17, 19, 10, 22, 5

### **3. Darpariaeth gofal plant Cymraeg**

7

### **4. Cludo rhwng darparwyr**

12

### **5. Ffioedd ychwanegol a chyfraddau talu**

13, 21, 32, 33

### **6. Plant cymhwysol**

14, 15, 16, 18

**7. Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru**

1, 3

**8. Offerynnau statudol: newidiadau i weithdrefnau**

23

**9. Categoriâu o ddarparwyr gofal plant a gyllidir**

24, 25

**10. Trefniadau gweinyddol ar gyfer darparu gofal plant a gyllidir**

26, 27, 28

**11. Adolygu penderfyniadau ac apelau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf**

29

**12. Adolygiad ac adroddiadau ar effaith y Ddeddf a darpariaeth fachlud**

30, 2A, 2B, 2C, 2D, 2E, 2, 35

**13. Dyletswydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth**

31

**14. Cynllunio'r gweithlu**

34

**15. Cychwyn**

36

**Dogfennau Ategol**

[Bil Cyllido Gofal Plant \(Cymru\)](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

[Rhestr o Welliannau wedi'u didoli](#)

[Grwpio Gwelliannau](#)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 11 Rhagfyr

2018

## Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28/11/2018 i'w hateb ar 05/12/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifenyddion y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

1 OAQ53050

(e)

Yn sgil rhybuddion gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am effaith toriadau i gyllid llywodraeth leol, pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cynnal gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch diogelu gwasanaethau lleol?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

2 OAQ53047

(e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella'r ddealltwriaeth o gyfraddau treth incwm Cymru?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

3 OAQ53044

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am strategaeth tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer lefelau trethiant yng Nghymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

4 OAQ53029

(e)

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi cyfalaf yng Nghwm Cynon?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

5 OAQ53025

(e)

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch ariannu rhaglen prentisiaeth Llywodraeth Cymru?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

6 OAQ53035

(e)

Pa newidiadau i ardrethi busnes yng Nghymru y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu eu cyflwyno yn dilyn cyhoeddiad cyllidebol Llywodraeth y DU ynghylch ardrethi busnes yn Lloegr?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

Tudalen y pecyn 1

7 OAQ53056

(e)

Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o'r ffigurau gwariant cyhoeddus mwyaf diweddar ar gyfer gwledydd y DU?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

8 OAQ53030

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyfodol lefelau treth yng Nghymru rhwng nawr ac etholiad nesaf y Cynulliad?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

9 OAQ53041

(e)

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus yn Islwyn rhag effeithiau'r cyni?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

10 OAQ53022

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith y gostyngiad mewn termau real yn grant bloc Cymru?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

11 OAQ53026

(e)

Pa gynllunio ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi ar gyfer Brexit?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

12 OAQ53055

(e)

Beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i helpu gofalwyr gyda chost y dreth gyngor?

**Leanne Wood** *Rhondda*

13 OAQ53052

(e)

Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o'r effaith y bydd datganoli'r gwaith o weinyddu'r system fudd-daliadau yn ei chael ar gyllideb Llywodraeth Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

14 OAQ53021

(e)

Pa ystyriaeth y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei rhoi i brosiectau seilwaith yng ngorllewin Cymru wrth ddyrannu arian i'r portffolio economi a thrafnidiaeth?

Tudalen y pecyn 2

# Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OAQ53046

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynghorau gwledig?

**Leanne Wood** *Rhondda*

2 OAQ53053

(e)

Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o effaith toriadau i gyllid awdurdod lleol?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OAQ53059

(e)

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog arloesedd mewn llywodraeth leol?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

4 OAQ53038

(w)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyllidebau llywodraeth leol?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

5 OAQ53039

(e)

Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o effeithiolrwydd gweithio rhanbarthol ymysg awdurdodau lleol?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

6 OAQ53036

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OAQ53057

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi cyn-filwyr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OAQ53037

(e)

Tudalen y pecyn 3



A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y setliad llywodraeth leol ar gyfer Cyngor Sir Penfro?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

9 OAQ53049

(e)

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sefydlu canolfannau ar gyfer troseddwr sy'n fenywod yng Nghymru fel mater o frys?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OAQ53058

(e)

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi cyfleusterau cymunedol yng Nghymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

11 OAQ53032

(e)

Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i wahardd troi pobl allan yn ddi-fai?

**Leanne Wood** *Rhondda*

12 OAQ53054

(e)

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau nad yw asedau cymunedol yn cael eu colli?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

13 OAQ53043

(w)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyllideb Cyngor Sir Ynys Môn yn 2019-20?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

14 OAQ53024

(e)

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ynghylch nifer y tanau ar laswelltir yng Nghymru?

**Jane Hutt** *Bro Morgannwg*

15 OAQ53045

(e)

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r ymgyrch undebau credyd 'People Not Profit' yn yr Alban?